9



Enillwyr Gwobr Twristiaeth Gwyrdd yn eu twnnel polythen

# Rhoi Ar Waith

## 9.1. Fframwaith Rhoi Ar Waith

Er mwyn cyflawni'r dyheadau a gweithredoedd y manylwyd arnynt yn y Cynllun Gweithredu, bydd angen eu rhoi ar waith fel rhan o broses gydlynol. Mae llawer o'r gweithredoedd a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu eisoes yn rhan o gynlluniau a strategaethau sydd eisoes yn bodoli a luniwyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol (e.e., Strategaeth Dwristiaeth Gynaliadwy) a/neu bartneriaid eraill (e.e., Cynlluniau Rheoli Basn Afon Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru). Mae gweithredoedd eraill yn newydd neu'n rhan o ddogfennau polisi sy'n datblygu (e.e., y Cynllun Datblygu Lleol). Ym mhob achos, ni ellir ystyried y gweithredoedd ar eu pen eu hunain, ond rhaid eu datblygu mewn perthynas â'r gweithredoedd eraill. Mae pob un ar gamau amrywiol o ran datblygu a darparu, yn amrywio yn ôl lleoliad, amseru, partneriaid, ffynonellau ariannu, ymrwymiadau, ac ati.

Felly mae gweithredu'n gofyn am gynllunio a llunio fframwaith cadarn yn ofalus. Bydd y fframwaith neu gynllun hwn yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio yn gryno'r dulliau ar gyfer gweithredu, cyrff cydlynu, ffynonellau ariannu allweddol, nodi cerrig milltir addas, anghenion ymchwil a strategaethau cydweithredol a fydd yn ofynnol i roi'r gweithredu arfaethedig ar waith a chyflawni'r deilliannau dymunol. Dylai'r cynllun rhoi ar waith fod yn ddogfen ddefnyddiol sy'n hwyluso darpariaeth effeithiol y gweithredol yn hytrach na bod yn gynllun er mwyn cynllunio. Mae'r fframwaith rhoi ar waith yn gam ychwanegol y tu hwnt i gwmpas Arweiniad Rheoli Parc Cenedlaethol (2006) CCGC.

## 9.2. Cydweithio a Chydlynu

Mae'r Cynllun Gweithredu'n cynnwys llawer o weithredoedd, ag amrywiaeth o sefydliadau arweiniol a phartneriaid yn gysylltiedig â darparu pob un. Fel nodwyd yn y Cynllun drwyddo draw, mae hyn yn gofyn am ymdrechion cydweithredol a chydunol pawb sy'n gysylltiedig â rheolaeth y Parc. Mae dyfodol y Parc yn dibynnu ar bartneriaethau cyson, yn enwedig mewn adegau pan ceir adnoddau cyfyngedig.

Mae gan APCBB, yn ogystal â bod yn rhanddeiliad allweddol sy'n gyfrifol am gyflawni llawer o'r gweithredoedd hyn, y rôl ychwanegol o gydlynu gweithrediad y gweithredoedd sy'n deillio o'r Cynllun Rheoli. Hefyd mae APCBB yn gyfrifol am gydlynu gwerthuso a monitro cyffredinol cynnydd tuag at lwyddo i gyflawni gweithredoedd y Cynllun Rheoli er efallai bod gan sefydliadau eraill raglenni monitro annibynnol (**gweler Pennod 10**). Mae cydlynu monitro a rhoi'r Cynllun ar waith yn gofyn am gyfathrebu aml ac effeithiol â phartneriaid darparu i sicrhau bod y gweithredoedd annibynnol a chydweithredol yn cael eu cofnodi ac adrodd arnynt.

## 9.3. Ariannu


Mae llifoedd ariannu sydd eisoes yn bodoli yn cynnwys rhai o'r gweithredoedd a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu. Fodd bynnag, mae darparu llawer o weithredoedd y Cynllun yn dibynnu ar nodi a chaffael ariannu newydd neu ychwanegol. Rhan o'r pwrpas y tu ôl i fframwaith rhoi ar waith yw nodi ble fydd angen ariannu ac awgrymu ffynonellau ariannu posibl i ddiwallu'r angen. Lle gellir darparu gweithredoedd a deilliannau yn gydweithredol, bydd ymdrechion yn cael eu gwneud i gronni arian a/neu adnoddau sy'n bodloni gofynion nifer o amcanion.

## 9.4. Rheolaeth Addasol

Yn aml, ystyrir bod rhoi strategaethau rheoli ar waith yn broses linellol. Mewn gwirionedd mae'n fwy o broses gylchol neu ailadroddol (**gweler Ffigur 9.1**) lle mae'n bosibl y bydd rhaid addasu gweithredoedd rheoli o bryd i'w gilydd - ar ôl monitro a gwerthuso yn ofalus - er mwyn cyflawni'r deilliannau dymunol. Mae gweithredoedd yn cael eu rhoi ar waith. Mae canlyniadau neu ddeilliannau yn cael eu monitro. Os bydd cynnydd yn cael ei wneud a cherrig milltir a

nodwyd yn cael eu cyrraedd, yna bydd y gweithredu rheoli'n mynd rhagddo fel y cynlluniwyd. Fodd bynnag, os na fydd cynnydd boddhaol yn cael ei wneud neu os yw deilliannau'n annymunol, yna dylid addasu gweithgaredd rheoli i ail-alinio'r gweithredoedd â'r deilliannau dymunol. Mewn rhai achosion eithafol, efallai y bydd y broses hon yn gofyn am ail-ddadansoddi'r gweithgaredd rheoli ac asesu'r deilliannau yng ngoleuni'r wybodaeth newydd, gan gynnwys gwerthuso costau a buddion.

Ffigur 9.1. **Darlun cyffredinol o'r broses rheoli addasol**





Sarn, Cronfa Ddwˆr Talybont